# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

05 Hydref 2022

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Safonau a Moeseg yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Iau, 13 Hydref 2022 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Materion Personol**

**3. Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd 25 Mai 2022 (Tudalennau 3 - 6)**

**5. Cofnod o Gamau Gweithredu (Tudalennau 7 - 12)**

**6. Materion yn Codi**

**7. Ystyried ceisiadau am ollyngiadau gan y Cynghorwyr canlynol:**

(i) Y Cynghorydd Keith Evans, Cyngor Sir Ceredigion (Cais Calon Tysul) (Tudalennau 13 - 22)

(ii) Y Cynghorydd Keith Evans, Cyngor Cymuned Llandysul (Cais Calon Tysul) (Tudalennau 23 - 32)

(iii) Y Cynghorydd Keith Evans, Cyngor Sir Ceredigion (Cais Cymdeithas Chwaraeon Llandysul) (Tudalennau 33 - 42)

(iv) Y Cynghorydd Keith Evans, Cyngor Cymuned Llandysul (Cymdeithas Chwaraeon Llandysul) (Tudalennau 43 - 52)

(v) Y Cynghorydd Keith Evans, Cyngor Sir Ceredigion (Cais Llandysul Pontweli) (Tudalennau 53 - 62)

(vi) Y Cynghorydd Keith Evans, Cyngor Cymuned Llandysul (Cais Llandysul Pontweli) (Tudalennau 63 - 72)

**8. Rheoliadau newydd mewn perthynas â Chyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru (Tudalennau 73 - 88)**

**9.** **Canfyddiadau Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Tudalennau 89 - 96)**

**10.** **Materion sy'n ymwneud â'r Cod Ymddygiad (Tudalennau 97 - 98)**

**11.** **Diweddariad ar faterion Panel Dyfarnu Cymru (Tudalennau 99 - 100)**

**12.** **Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon 2021/22 (Tudalennau 101 - 104)**

**13.** **Y diweddaraf am broses recriwtio'r Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r penodiadau i Is-bwyllgor Safonau Cydbwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru (Tudalennau 105 - 106)**

**14.** **Hyfforddiant (Tudalennau 107 - 108)**

**15.** **Ystyried unrhyw gais arall am ollyngiad a dderbyniwyd ers cyhoeddi'r agenda**

**16.** **Blaenraglen Waith (Tudalennau 109 - 112)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Safonau a Moeseg**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

**Cofnodion Cyfarfod o'r PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU**
**a gynhaliwyd ar ffurf hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron**
**ac o bell drwy fideogynadledda**
**ddydd Mercher, 25 Mai 2022**

**YN BRESENNOL:** Mrs Caroline White (Cadeirydd), Mr Alan Davies, Miss Caryl Davies a Ms Carol Edwards (Aelodau Annibynnol)

Y Cynghorwyr Gwyn Evans a Caryl Roberts (Aelodau Etholedig)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Ms Elin Prysor (Swyddog Monitro)
Mrs Lisa Evans (Swyddog Craffu a Safonau)
Mrs Dana Jones (Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Safonau)

(10.00am-12.20pm)

1 **Materion Personol**
Croesawodd y Cadeirydd y ddau Gynghorydd Sir newydd, y Cynghorwyr Gwyn Evans a Caryl Roberts, i'r cyfarfod.

2 **Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd Mr John Weston am na fedrai ddod i'r cyfarfod.

3 **Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu**
Dim.

4 **Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2022 yn rhai cywir**
PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2022 yn rhai cywir yn amodol ar newid gair olaf y penderfyniad yn eitem 7 (b) yn y fersiwn Saesneg i 'received'**.**

5 **Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd ar 07 Chwefror 2022 yn rhai cywir**
PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 07 Chwefror 2022 yn rhai cywir.

6 **Materion yn codi**
Cofnodion 17/01/2022 - Eitem 3, Unrhyw Fater Arall – Dywedodd y Swyddog Monitro y cytunwyd â Chyngor Sir Powys y byddai Aelodau o Bwyllgor Moeseg a Safonau Ceredigion hefyd yn Aelodau o Cyd-bwyllgor Safonau Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru. Serch hynny, nid oedd nifer yr Aelodau a oedd eu hangen yn hysbys eto a dywedwyd bod hyn yn amodol ar gyngor oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ynglŷn â chyfansoddiad y pwyllgor.

7 **Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau 2021/22**

Ystyriwyd Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau 2021/22. Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am baratoi'r Adroddiad Blynyddol.

Cytunodd y Pwyllgor i GYMERADWYO fersiwn ddrafft Adroddiad Blynyddol 2021/22 y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn amodol ar newid y ffigwr ar dudalen 32 yr adroddiad.

**8** **Cynllunio Olyniaeth – Aelodau Lleyg**

Ystyriwyd yr Adroddiad ynghylch cynllunio olyniaeth o ran aelodau lleyg. Yn dilyn trafodaeth, CYTUNWYD i argymell i'r Cyngor y dylai gymeradwyo'r canlynol:
(i) disgrifiad y rôl, y manyleb personol a'r meini prawf (fel yr amlinellir yn yr Atodiad)
(ii) Aelodaeth y Panel Dethol fel a ganlyn:
• Cadeirydd y Cyngor (yn absenoldeb yr Is-gadeirydd);
•Aelod Annibynnol / Lleyg o'r Panel (enwebwyd gan y Swyddog Monitro)
• Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau (neu unrhyw aelodau annibynnol a enwebwyd gan y Swyddog Monitro fel y bo angen)
• Cynrychiolydd y Cynghorau Tref a Chymuned a enwebwyd gan Un Llais Cymru; a
(iii) newid y teitl 'disgrifiad swydd' yn yr Atodiad gan roi 'disgrifiad o'r rôl' yn lle hynny.

**9** **Recriwtio Cynghorwyr Tref / Cymuned – diweddariad**

CYTUNWYD i nodi'r diweddariad a roddwyd a dywedwyd y dylid ystyried cydbwysedd o ran y rhywiau ar y Pwyllgor, os byddai modd gwneud hynny, yn ystod y broses benodi.

**10** **Penderfyniadau'r Ombwdsmon o ran y Cod Ymddygiad**

CYTUNWYD i nodi'r penderfyniadau a gyflwynwyd o ran y Cod Ymddygiad ers cyhoeddi'r Coflyfr diwethaf. Roedd yr Aelodau yn cytuno â'r fformat newydd o gyflwyno'r wybodaeth. Byddai'r wybodaeth hon hefyd yn cael ei dosbarthu i Arweinwyr y Grwpiau ac yn cael ei defnyddio fel deunydd hyfforddi.

**11** **Materion sy'n ymwneud â'r Cod Ymddygiad – y diweddaraf am erthyglau'r wasg**

Dim.

**12** **Tueddiadau o ran Cwynion sy'n ymwneud â Chynghorwyr - 2021/22**

Ystyriwyd y tueddiadau o ran cwynion sy'n ymwneud â Chynghorwyr ar gyfer 2021/22. CYTUNWYD i nodi'r adroddiad er gwybodaeth. Nodwyd hefyd y byddai adroddiad o'r tueddiadau yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol a allai gynnwys mwy o wybodaeth gyffredinol pe byddai'r Swyddog Monitro yn ystyried bod hyn yn dderbyniol. Yn ogystal, byddai Arweinwyr y Grwpiau yn rhan o unrhyw gŵyn yn erbyn eu Cynghorwyr o'r cychwyn cyntaf yn y dyfodol; a hynny oherwydd eu cyfrifoldeb newydd o ran arfarnu tueddiadau a gwella safonau yn ystod y weinyddiaeth newydd.

**13 Gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion a gyfeirir at y Pwyllgor Moeseg a Safonau a chynnal gwrandawiadau**

Ystyriwyd y ddogfen ddiwygiedig ynghylch y Weithdrefn ar gyfer Cynnal Gwrandawiadau. Yn dilyn trafodaeth, CYTUNWYD i argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r ddogfen ar 07 Gorffennaf 2022 yn amodol ar ddiwygio'r rhifau. Byddai siart lif ynghylch y Gweithdrefnau ar gyfer Cynnal Gwrandawiadau hefyd yn cael ei dosbarthu i'r Aelodau.

**14 Diweddariad ynghylch Materion Panel Dyfarnu Cymru**

CYTUNWYD i nodi'r penderfyniad a oedd wedi'i ddosbarthu ar e-bost o ran y Cynghorwyr Bishop, P Morgan, W Owen a D Poole.

**15 Diweddariad ynghylch Materion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Ni chafwyd adroddiad.

**16 Hyfforddiant**

- Cynhaliwyd hyfforddiant i Glercod Cynghorau Tref a Chymuned ar 27 Ebrill 2022 a dywedwyd bod 30 o Glercod yn bresennol. Darparwyd nodiadau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r Clercod fel y gallent hwyluso hyfforddiant ar gyfer eu Cynghorau Tref / Cymuned.
- Rhoddwyd hyfforddiant i Aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ynglŷn â Rôl a Chyfrifoldebau'r Pwyllgor ar 24 Mai 2022
- Byddai'r hyfforddiant ynglŷn â'r Weithdrefn ar gyfer Cynnal Gwrandawiadau yn cael ei gynnal ar 30 Medi 2022
- Byddai'r hyfforddiant i Arweinwyr y Grwpiau yn cael ei gynnal ar 06 Mehefin 2022
- Roedd Cyngor Tref Aberystwyth a Chyngor Cymuned y Borth wedi gofyn am hyfforddiant. Anogwyd Aelodau'r Pwyllgor i gynorthwyo â'r hyfforddiant unwaith y byddai wedi'i drefnu.
- Nodwyd bod Un Llais Cymru yn cynnig hyfforddiant ynglŷn â'r Cod Ymddygiad i bob Cynghorydd Tref a Chymuned.
- Roedd y modiwlau hyfforddi newydd ar gael i'r Aelodau Annibynnol ar y llwyfan E-ddysgu newydd. Serch hynny, roedd angen cael cadarnhad a fyddai'r hyfforddiant hwn ar gael i Glercod a Chynghorwyr y Cynghorau Tref a Chymuned, unwaith y byddai cynnwys y deunydd hyfforddi wedi dod i law.
- Soniwyd am yr angen o bosib i ymestyn yr hyfforddiant ynghylch y Cod Ymddygiad dros gyfnod hirach o amser fel y gallai'r Cynghorwyr Tref a Chymuned amsugno'r wybodaeth gymhleth a gyflwynwyd.
- Dywedwyd bod yr hyfforddiant ynghylch y Cod Ymddygiad yn un cenedlaethol a oedd yn cael ei ddarparu ar-lein. Ystyriwyd y gallai hyn fod yn broblem i Gynghorwyr sy'n gynghorwyr ers tro byd, a fyddai'n dymuno derbyn yr hyfforddiant wyneb yn wyneb. Byddai un o'r swyddogion yn cysylltu â'r clercod i weld a fyddai'n well ganddynt gael hyfforddiant ar-lein neu wyneb yn wyneb. Nodwyd hefyd nad oedd nifer o Glercod yn teimlo'n gyfforddus i ddarparu'r hyfforddiant hwn i'w Cynghorau.
- Byddai'r Swyddog Monitro yn gofyn am gopi o Raglen Hyfforddi'r Cynghorau Tref a Chymuned er mwyn gweld a oedd hyfforddiant

wedi'i roi ynghylch y Cod Ymddygiad. Nodwyd bod cais wedi'i wneud am y Rheolau Sefydlog a'r Broses Ddatrys Leol yn flaenorol. Gan fod pob Cynghorydd Sir yn mynd i gyfarfodydd Cynghorau Tref a chymuned yn eu wardiau, dywedwyd y dylent hyrwyddo'r hyfforddiant a oedd ar gael.

**17 Blaenraglen Waith**

CYTUNWYD i nodi'r Flaenraglen Waith fel y'i cyflwynwyd. Dywedodd y Cadeirydd y dylid cynnal y cyfarfod nesaf cyn 02 Tachwedd 2022. Tynnodd y Swyddog Monitro sylw at y goblygiadau o ran adnoddau o drefnu cyfarfodydd brys a bod angen i'r Aelodau drefnu eu gwaith yn briodol i weld a fyddai angen gollyngiad arnynt. Dywedwyd mai'r bwriad gwreiddiol oedd cynnal y cyfarfod a oedd yn cael ei gynnal heddiw ym mis Gorffennaf. Byddai cais yn cael ei wneud i gynnal y cyfarfod hwn ym mis Medi neu ym mis Hydref yn hytrach nag ym mis Tachwedd.
Cytunwyd y byddai adroddiad y Swyddog Monitro am dueddiadau, hunanarfarnu a'r cynlluniau hyfforddi ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned yn cael eu hychwanegu at agenda'r cyfarfod nesaf.

Cytunwyd hefyd y byddai Cofnod o Gamau Gweithredu'r cyfarfod heddiw yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf; yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**18 Ystyried unrhyw gais arall am ollyngiad a dderbyniwyd ers cyhoeddi'r agenda**

Dim.

**19 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2022**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**__________________

# <u>Cofnod o Gamau Gweithredu Cyfarfodydd Pwyllgor Moeseg a Safonau Cyngor Sir Ceredigion 2022-2023*</u>

Diben y Cofnod hwn yw monitro'r camau gweithredu y mae aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau wedi cytuno arnynt yn eu cyfarfodydd e.e. lle bo aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau wedi gofyn am gyflwyno adroddiad ger eu bron yn y dyfodol, neu wedi gofyn am wybodaeth ar gyfer un o gyfarfodydd y dyfodol.

Er mwyn cael mwy o wybodaeth am y Cofnod o Gamau Gweithredu, cysylltwch â'r Swyddog Safonau.

Diweddarwyd: 13 Medi 2022

*Blwyddyn Fwrdeistrefol

Caiff y camau gweithredu sydd wedi'u nodi mewn gwyrdd ac sydd wedi'u cwblhau eu tynnu oddi ar y Cofnod Gweithredu dilynol.

| Rhif | Dyddiad y cyfarfod | Eitem | Sylwadau | Camau Gweithredu | Swyddog / Swyddogion sy'n gyfrifol am y camau gweithredu | Y diweddaraf am y cynnydd a wnaed | Y tro nesaf yr adroddir am hyn | Cwblhawyd? Do / Naddo |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | 25.5.22 | **Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau 2021/22** | Cymeradwywyd yr adroddiad. | Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron y Cyngor ar 20.10.22. | DJ, Swyddog Safonau | | Ddim yn berthnasol | Naddo |
| 2. | 25.5.22 | **Cynllunio olyniaeth – aelod lleyg** | CYTUNWYD i argymell i'r Cyngor i gymeradwyo: | Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno | LE, Swyddog Safonau | | | Naddo |

Tudalen 7

Eitem Agenda 5

| Rhif | Dyddiad y cyfarfod | Eitem | Sylwadau | Camau Gweithredu | Swyddog / Swyddogion sy’n gyfrifol am y camau gweithredu | Y diweddaraf am y cynnydd a wnaed | Y tro nesaf yr adroddir am hyn | Cwblhawyd ? Do / Naddo |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gerbron y Cyngor ar 20.10.22 | | | | |
| | | | (i) disgrifiad y rôl, y manyleb personol a’r meini prawf (fel yr amlinellir yn yr Atodiad) | Enwebu Aelod Annibynnol / Lleyg o’r Panel a chysylltu â’r unigolyn. | EP, LE | Yr Athro John Williams wedi cytuno | | |
| | | | (ii) Aelodaeth y Panel Dethol fel a ganlyn: | Cysylltu ag Un Llais Cymru | LE | Wedi cysylltu – dim ymateb eto | | |
| | | | • Cadeirydd y Cyngor (yn absenoldeb Is-gadeirydd); | Rhestr fer/ dyddiadau’r cyfweliadau | LE | Rhoi dyddiadau dros dro i’r panel | | |
| | | | •Aelod Annibynnol / Lleyg o’r Panel (enwebwyd gan y | | | | | |

| Rhif | Dyddiad y cyfarfod | Eitem | Sylwadau | Camau Gweithredu | Swyddog / Swyddogion sy'n gyfrifol am y camau gweithredu | Y diweddaraf am y cynnydd a wnaed | Y tro nesaf yr adroddir am hyn | Cwblhawyd ? Do / Naddo |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Swyddog Monitro)<br><br>• Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau (neu unrhyw aelodau annibynnol a enwebwyd gan y Swyddog Monitro fel y bo angen)<br><br>• Cynrychiolydd y Cynghorau Tref a Chymuned a enwebwyd gan Un Llais Cymru; a<br><br>(iii) newid y teitl 'disgrifiad | | | | | |

| Rhif | Dyddiad y cyfarfod | Eitem | Sylwadau | Camau Gweithredu | Swyddog / Swyddogion sy'n gyfrifol am y camau gweithredu | Y diweddaraf am y cynnydd a wnaed | Y tro nesaf yr adroddir am hyn | Cwblhawyd ? Do / Naddo |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | swydd' yn yr Atodiad gan roi 'disgrifiad o'r rôl' yn lle hynny. | | | | | |
| 3 | 25.5.22 | **Hyfforddiant** | Byddai'r Swyddog Monitro yn gofyn am gopi o Raglen Hyfforddi'r Cynghorau Tref a Chymuned er mwyn gweld a oedd hyfforddiant wedi'i roi ynghylch y Cod Ymddygiad. Nodwyd bod cais wedi'i wneud am y Rheolau Sefydlog a'r Broses | Swyddog Monitro i gysylltu ag Un Llais Cymru | Swyddog Monitro | Rhaglen hyfforddiant fisol Un Llais Cymru wedi'i ddarparu i'r Swyddog Monitro | | |

| Rhif | Dyddiad y cyfarfod | Eitem | Sylwadau | Camau Gweithredu | Swyddog / Swyddogion sy’n gyfrifol am y camau gweithredu | Y diweddaraf am y cynnydd a wnaed | Y tro nesaf yr adroddir am hyn | Cwblhawyd? Do / Naddo |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Ddatrys Leol yn flaenorol.<br><br>Gan fod pob Cynghorydd Sir yn mynd i gyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned yn eu wardiau, dywedwyd y dylent hyrwyddo’r hyfforddiant a oedd ar gael. | | GWE<br>CR | | | |
| 4 | 25.5.22 | **Blaenraglen Waith** | Trefnu cyfarfod ym mis Medi / Hydref | Cyfarfod wedi’i drefnu ar gyfer 13/10 | Swyddog Safonau | | | Do |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 7a

Updated 23/03/20

Cyngor Sir
**CEREDIGION**
County Council

**CAIS I'R PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU AM OLLYNGIAD**

**Gwybodaeth**

Darllenwch y Canllawiau am fwy o wybodaeth, gan gynnwys y siart llif a fydd yn eich helpu i benderfynu a oes angen gollyngiad arnoch.

Dylai Cynghorwyr fod yn ymwybodol o'r Cod Ymddygiad a'i gynnwys. Os ydych chi'n ansicr ynglŷn ag unrhyw beth, mae croeso ichi gysylltu â'r Swyddog Monitro.

Dylech sicrhau mai **DIM OND UN** mater sydd dan sylw ar bob ffurflen. Os oes mwy nag un mater (achosion gwahanol) dylech ddefnyddio ffurflenni ar wahân ar eu cyfer.

Os oes arnoch angen gollyngiad ar gyfer Cyngor Tref/Cymuned **A'R** Cyngor Sir mae rhaid defnyddio **gwahanol** ffurflenni am bob cais.

## Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau i:

moesegasafonau@ceredigion.llyw.cymru / ethicsandstandards@ceredigion.gov.uk

Moeseg a Safonau
Neuadd Cyngor Ceredigion,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA
**Ffôn: 01545 570881**

**Am ragor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â:**

**Swyddog Monitro** - Elin Prysor
Neuadd Cyngor Ceredigion,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA

MonitoringOfficer@ceredigion.gov.uk **/** SwyddogMonitro@ceredigion.gov.uk

Updated 23/03/20

Cyngor Sir
**CEREDIGION**
County Council

**CAIS I'R PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU AM OLLYNGIAD**

Mae'n RHAID cwblhau pob rhan o'r ffurflen. Darllenwch y Canllawiau wrth lenwi'r ffurflen.

## 1. EICH MANYLION

Eich enw llawn: Evan John Keith Evans

Cyngor:
Sir: ☒ Tref/Cymuned: ☒

Enw eich Cyngor: Cyngor Sir Ceredigion. Cyngor Cymuned Llandysul

Eich cyfeiriad: Deganwy, Llandysul, Ceredigion.

Cod post: SA44 4DT

Rhif(au) ffôn cyswllt: 07970 261861

Cyfeiriad e-bost: keith.evans@ceredigion.gov.uk

## 2. MANYLION EICH BUDDIANT

Beth yw'r mater y bydd y Cyngor yn ei drafod?

Cyllid Posibl ar gyfer Calon Tysul

Disgrifiwch eich buddiant sy'n rhagfarnu yn y mater uchod, gan gynnwys eich cysylltiad chi ag ef:
Rwy'n gwasanaethu ac yn cynghori ar eu Pwyllgor Rheoli. Fel eu haelod lleol o'r Cyngor Sir ac o'r Cyngor Cymuned, mae sefydliadau lleol yn edrych tuag at aelodau etholedig am arweiniad, arweinyddiaeth a chefnogaeth.

Ble caiff y mater uchod ei drafod? (er enghraifft, Cabinet, Cyngor Sir, Cyngor Tref/Cymuned)

**Sir - Cyngor** ☒ **Sir - Cabinet** ☒

**Sir - Pwyllgor** ☒ **Tref/Cymuned** ☒

**Arall**
**(Rhowch fanylion)** ______________________________

Updated 23/03/20

I ba baragraff o'r Cod Ymddygiad i Gynghorwyr (argraffiad 20 Mai 2016) y mae'r buddiant hwn yn berthnasol?

**Paragraff 10 (2) (a)** os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio arnynt —
(i) unrhyw gyflogaeth yr ydych yn ymgymryd â hi neu fusnes yr ydych yn ei redeg; ☐

(ii) unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, unrhyw ffyrm yr ydych yn bartner ynddi neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl; ☐

(iii) unrhyw berson, ac eithrio eich awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn cysylltiad â'ch ethol neu mewn cysylltiad ag unrhyw dreuliau a dynnwyd gennych wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau fel aelod; ☐

(iv) unrhyw gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sydd gan y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw; ☐

(v) unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith neu weithfeydd a wnaed rhyngoch chi, rhwng ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, neu rhwng cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu rhwng corff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod a'ch awdurdod; ☒

(vi) unrhyw dir y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod; ☐

(vii) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord arno ac y mae ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu gorff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod yn denant arno; ☐

(viii) unrhyw gorff yr ydych wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno; ☐

(ix) unrhyw — (ee )
x☐

(aa) awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;

(bb) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen, neu gorff arall a chanddo ddibenion elusennol;

(cc) corff y mae dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus ymhlith ei brif ddibenion;

(dd) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

(ee) clwb preifat neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal eich awdurdod, yr ydych yn aelod ohono neu ohoni neu mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo neu ynddi;

Updated 23/03/20

(x) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 o ddiwrnodau neu fwy; ☐

**Paragraff 10 (2) (b)** pe byddai'n rhesymol ystyried penderfyniad arno yn benderfyniad a fyddai'n effeithio —

(i) ar eich llesiant neu eich sefyllfa ariannol, neu lesiant neu sefyllfa ariannol person yr ydych yn byw gydag ef, neu unrhyw berson y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef; ☐

(ii) ar unrhyw gyflogaeth yr ymgymerir â hi neu fusnes a redir gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i); ☐

(iii) ar unrhyw berson sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw bersonau ag a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i), unrhyw ffyrm y mae'r cyfryw bersonau'n bartneriaid ynddi, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwyr arno; ☐

(iv) ar unrhyw gorff corfforaethol y mae gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i) fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £5,000; neu ☐

(v) ar unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 10(2)(a)(ix)(aa) i (dd) y mae personau a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i) mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo, ☒
a hynny i raddau mwy—

> (aa) yn achos awdurdod â dosbarthiadau etholiadol neu wardiau, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn y dosbarth etholiadol neu'r ward, yn ôl y digwydd, y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt; neu
> (bb) ym mhob achos arall, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, o bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn ardal yr awdurdod.

**Paragraff 13** Bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes sydd gerbron un o bwyllgorau trosolwg a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath) —

(a) os bydd y busnes hwnnw'n gysylltiedig â phenderfyniad a wnaed (p'un a gafodd ei weithredu ai peidio) neu gam a gymerwyd gan weithrediaeth, bwrdd, neu un arall o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cydbwyllgorau neu o gyd is-bwyllgorau eich awdurdod; a ☒

(b) os oeddech chi, ar yr adeg pan wnaed y penderfyniad neu pan gymerwyd y cam, yn aelod o'r weithrediaeth, y bwrdd, y pwyllgor, yr is-bwyllgor, y cydbwyllgor neu'r cyd-is-bwyllgor a grybwyllir yn is-baragraff (a) a'ch bod chi'n bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu pan gymerwyd y cam hwnnw. ☒

Updated 23/03/20

## 3. GWYBODAETH I ATEGU'CH CAIS

Nodwch unrhyw wybodaeth ychwanegol (cefndir/ffeithiol) i gadarnhau/esbonio eich buddiant ymhellach. Bydd hyn yn cynorthwyo'r Pwyllgor wrth iddo drafod eich cais am ollyngiad.
**(Os na chwblheir y rhan hon, fe gaiff y ffurflen gais ei dychwelyd atoch)**
Tua 6/7 mlynedd yn ôl penderfynodd y Cyngor Sir dynnu eu cymorth refeniw yn ôl ar gyfer Pwll Nofio Llandysul ar y pryd, cyfleuster a adeiladwyd gan bobl Llandysul ryw 45 mlynedd yn ôl, ac sy'n bwll sy'n cael ei redeg yn wirfoddol gan Fwrdd Ymddiriedolwyr.
Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach penderfynodd yr un Awdurdod gau Canolfan Hamdden Llandysul a cheisiodd ddiddordeb gan y Gymuned i gymryd y cyfrifoldeb am barhau i'w weithredu.
Gan fod y Pwll wedi'i gysylltu â'r ganolfan Hamdden, penderfynodd y Bwrdd roi gwybod am eu diddordeb mewn cymryd drosodd y cyfleuster a chreodd y corff a elwir bellach yn Calon Tysul. Derbyniodd yr Awdurdod Sir eu hachos busnes ac aeth ymlaen i drosglwyddo'r adeilad o dan y cynllun trosglwyddo asedau cymunedol gan ddod â swm refeniw cymedrol gydag ef am y 2 flynedd gychwynnol a ddilynodd.
Fel y gallai rhai ar y panel ei werthfawrogi a'i adnabod, mae angen cymorth refeniw bob amser ar Byllau a chyfleusterau hamdden, yn enwedig y rhai a reolir gan Awdurdodau Lleol, i gynnal eu gwasanaeth cymunedol pwysig iawn.
Er clod iddynt mae Calon Tysul wedi llwyddo hyd yma i gynnal yr adnodd cymunedol gwerthfawr hwn, ond maent yn ddibynnol ar ddenu cyllid rhaglenni a rhywfaint o gymorth refeniw cymedrol gan y cyngor cymuned ac maent yn dibynnu hefyd am gymorth ariannol allanol yn bennaf, i ymgymryd â phrosiectau sy'n waith cyfalaf eu natur. Fel mater o wybodaeth gefndirol rydym yn gwario dros £1k yr wythnos ar gostau ynni yn unig. Rwyf felly'n ceisio gollyngiad er mwyn fy ngalluogi fel eu cynrychiolydd etholedig lleol i bledio eu hachos ar lefel awdurdod sirol a chymunedol.

(defnyddiwch dudalen ychwanegol ar wahân os oes angen)

## 4. SAIL AR GYFER RHOI GOLLYNGIAD

Mae **Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Rhoi Gollyngiadau)(Cymru) 2001** yn pennu o dan ba amgylchiadau y gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau roi gollyngiad. Nodir isod y sail ar gyfer rhoi gollyngiad.

Ar ba sail o blith y canlynol y credwch y dylid rhoi gollyngiad yn yr achos hwn? Ticiwch bob bocs sy'n briodol.

| | |
|---|---|
| (a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw; | ☐ |
| (b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (d) neu baragraff (e) hefyd yn gymwys; | ☐ |
| (c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai anallu aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio; | ☐ |

| | |
|---|---|
| (d) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal; | ☒ |
| (e) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd; | ☒ |
| (f) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod; | ☒ |
| (g) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolwg a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol | ☐ |
| (h) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu | ☐ |
| (i) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu. | ☒ |

## 5. SAIL AR GYFER RHOI GOLLYNGIAD - RHAGOR O WYBODAETH

Nodwch isod y rhesymau pam rydych chi’n credu y dylai’r Pwyllgor Moeseg a Safonau roi gollyngiad yn yr achos hwn (hynny yw, esboniwch pam rydych chi’n credu y bodlonwyd un neu fwy o’r meini prawf ar gyfer rhoi gollyngiad)

**(Os na chwblheir y rhan hon, fe gaiff y ffurflen gais ei dychwelyd atoch)**

Rwy'n cynrychioli ward bach mewn tref farchnad, lle mae pawb yn adnabod pawb ac fel aelod etholedig, mae'r cyhoedd yn ymwybodol iawn o'r gwaith rydych chi'n ei wneud yn y gymuned. Mae cael cipolwg ar y grwpiau hyn trwy fod ar eu pwyllgorau rheoli yn hwyluso materion. Ar sawl achlysur gallwn fod wedi bod mewn sefyllfa i gynorthwyo trafodaethau Pwyllgorau'r Cyngor oherwydd y wybodaeth a'r wybodaeth gefndirol sydd gan rywun am yr ymgeiswyr. Y duedd yw mynd yn ôl at yr ymgeisydd a cheisio'r wybodaeth ac yn y broses golli cyfnod estynedig o amser tan y cylch nesaf o gyfarfodydd. Byddai galluogi fy nghyfranogiad yn hwyluso hepgor y broses benderfynu ac yn sicrhau Llywodraeth Leol well a mwy effeithlon.

Ni fyddai fy ngallu i siarad a phleidleisio yn niweidio hyder y cyhoedd ym musnes yr Awdurdod gan fod yr holl waith rwy'n ei wneud yn y gymuned yn wirfoddol. Mae fy mharch ac enw da yn y dref yn gymaint fel bod y cyhoedd yn ymwybodol y bydd fy safbwynt, ac unrhyw gefnogaeth a roddir er budd ein cymuned. Mae Llandysul yn gymuned weithgar iawn ac rwy'n gwasanaethu ar ryw 10 sefydliad lleol. Rwyf wedi bod yn rhan o bob haen o Lywodraeth Leol ers dros 35 mlynedd ac wedi gwasanaethu ar nifer o gyrff Rhanbarthol a Chenedlaethol yn ystod fy ngyrfa wleidyddol.

(defnyddiwch dudalen ychwanegol ar wahân os oes angen)

## 6. CAIS

A ydych chi’n gwneud cais am ollyngiad i siarad yn unig, ynteu i siarad a phleidleisio?

Updated 23/03/20

Siarad yn Unig: ☐ Siarad a Phleidleisio: ☒

Rhowch reswm dros hyn:
Bydd y gallu i siarad a phleidleisio ar adegau lle mae gen i ddiddordeb mewn sefydliad cymunedol yn hwyluso ac yn cynorthwyo'r prosesau penderfynu oherwydd y wybodaeth, yr arbenigedd a'r profiad lleol sydd gen i.

## 7. HYD Y GOLLYNGIAD

Am ba hyd y gofynnir am y gollyngiad hwn?

**Penodol:**

Cyfarfod(ydd) Penodol: ☐

Nodwch ddyddiad(au)'r cyfarfod(ydd): ______________________

**Cyffredinol:**

Chwe mis: ☐ Deuddeg mis: ☒

## 8. DATGANIAD

Yr wyf yn gofyn am ollyngiad ynglŷn â'r mater uchod.

**Yr wyf yn cadarnhau fod y wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth.**

Llofnodwyd: Keith Evans

Dyddiad: 17/08/22

**Anfonwch y ffurflen hon yn ôl i:**

Moeseg a Safonau
Neuadd Cyngor Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA
Ffôn: 01545 570881

ethicsandstandards@ceredigion.gov.uk / moesegasafonau@ceredigion.llyw.cymru

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 7b

Updated 23/03/20

Cyngor Sir
**CEREDIGION**
County Council

**CAIS I'R PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU AM OLLYNGIAD**

**Gwybodaeth**

Darllenwch y Canllawiau am fwy o wybodaeth, gan gynnwys y siart llif a fydd yn eich helpu i benderfynu a oes angen gollyngiad arnoch.

Dylai Cynghorwyr fod yn ymwybodol o'r Cod Ymddygiad a'i gynnwys. Os ydych chi'n ansicr ynglŷn ag unrhyw beth, mae croeso ichi gysylltu â'r Swyddog Monitro.

Dylech sicrhau mai **DIM OND UN** mater sydd dan sylw ar bob ffurflen. Os oes mwy nag un mater (achosion gwahanol) dylech ddefnyddio ffurflenni ar wahân ar eu cyfer.

Os oes arnoch angen gollyngiad ar gyfer Cyngor Tref/Cymuned **A'R** Cyngor Sir mae rhaid defnyddio **gwahanol** ffurflenni am bob cais.

## Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau i:

moesegasafonau@ceredigion.llyw.cymru / ethicsandstandards@ceredigion.gov.uk

Moeseg a Safonau
Neuadd Cyngor Ceredigion,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA
**Ffôn: 01545 570881**

**Am ragor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â:**

**Swyddog Monitro** - Elin Prysor
Neuadd Cyngor Ceredigion,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA

MonitoringOfficer@ceredigion.gov.uk **/** SwyddogMonitro@ceredigion.gov.uk

Updated 23/03/20

Cyngor Sir
**CEREDIGION**
County Council

**CAIS I'R PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU AM OLLYNGIAD**

Mae'n RHAID cwblhau pob rhan o'r ffurflen. Darllenwch y Canllawiau wrth lenwi'r ffurflen.

## 1. EICH MANYLION

Eich enw llawn: Evan John Keith Evans

Cyngor:

Sir: ☒ Tref/Cymuned: ☒

Enw eich Cyngor: Cyngor Sir Ceredigion. Cyngor Cymuned Llandysul

Eich cyfeiriad: Deganwy, Llandysul, Ceredigion.

Cod post: SA44 4DT

Rhif(au) ffôn cyswllt: 07970 261861

Cyfeiriad e-bost: keith.evans@ceredigion.gov.uk

## 2. MANYLION EICH BUDDIANT

Beth yw'r mater y bydd y Cyngor yn ei drafod?

Cyllid Posibl ar gyfer Calon Tysul

Disgrifiwch eich buddiant sy'n rhagfarnu yn y mater uchod, gan gynnwys eich cysylltiad chi ag ef:
Rwy'n gwasanaethu ac yn cynghori ar eu Pwyllgor Rheoli. Fel eu haelod lleol o'r Cyngor Sir ac o'r Cyngor Cymuned, mae sefydliadau lleol yn edrych tuag at aelodau etholedig am arweiniad, arweinyddiaeth a chefnogaeth.

Ble caiff y mater uchod ei drafod? (er enghraifft, Cabinet, Cyngor Sir, Cyngor Tref/Cymuned)

**Sir - Cyngor** ☒ **Sir - Cabinet** ☒

**Sir - Pwyllgor** ☒ **Tref/Cymuned** ☒

**Arall**
**(Rhowch fanylion)** ____________________

Updated 23/03/20

I ba baragraff o'r Cod Ymddygiad i Gynghorwyr (argraffiad 20 Mai 2016) y mae'r buddiant hwn yn berthnasol?

**Paragraff 10 (2) (a)** os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio arnynt —
(i) unrhyw gyflogaeth yr ydych yn ymgymryd â hi neu fusnes yr ydych yn ei redeg; ☐

(ii) unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, unrhyw ffyrm yr ydych yn bartner ynddi neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl;
☐

(iii) unrhyw berson, ac eithrio eich awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn cysylltiad â'ch ethol neu mewn cysylltiad ag unrhyw dreuliau a dynnwyd gennych wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau fel aelod; ☐

(iv) unrhyw gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sydd gan y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw; ☐

(v) unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith neu weithfeydd a wnaed rhyngoch chi, rhwng ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, neu rhwng cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu rhwng corff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod a'ch awdurdod;
☒

(vi) unrhyw dir y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod; ☐

(vii) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord arno ac y mae ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu gorff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod yn denant arno;

(viii) unrhyw gorff yr ydych wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno; ☐

(ix) unrhyw — (ee )
x☐

(aa) awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;

(bb) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen, neu gorff arall a chanddo ddibenion elusennol;

(cc) corff y mae dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus ymhlith ei brif ddibenion;

(dd) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

(ee) clwb preifat neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal eich awdurdod, yr ydych yn aelod ohono neu ohoni neu mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo neu ynddi;

Updated 23/03/20

(x) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 o ddiwrnodau neu fwy;
☐

**Paragraff 10 (2) (b)** pe byddai'n rhesymol ystyried penderfyniad arno yn benderfyniad a fyddai'n effeithio —

(i) ar eich llesiant neu eich sefyllfa ariannol, neu lesiant neu sefyllfa ariannol person yr ydych yn byw gydag ef, neu unrhyw berson y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef;
☐

(ii) ar unrhyw gyflogaeth yr ymgymerir â hi neu fusnes a redir gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i); ☐

(iii) ar unrhyw berson sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw bersonau ag a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i), unrhyw ffyrm y mae'r cyfryw bersonau'n bartneriaid ynddi, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwyr arno; ☐

(iv) ar unrhyw gorff corfforaethol y mae gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i) fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £5,000; neu
☐

(v) ar unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 10(2)(a)(ix)(aa) i (dd) y mae personau a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i) mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo,
☒
a hynny i raddau mwy—

(aa) yn achos awdurdod â dosbarthiadau etholiadol neu wardiau, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn y dosbarth etholiadol neu'r ward, yn ôl y digwydd, y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt; neu
(bb) ym mhob achos arall, na’r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, o bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn ardal yr awdurdod.

**Paragraff 13** Bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes sydd gerbron un o bwyllgorau trosolwg a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath) —

(a) os bydd y busnes hwnnw'n gysylltiedig â phenderfyniad a wnaed (p'un a gafodd ei weithredu ai peidio) neu gam a gymerwyd gan weithrediaeth, bwrdd, neu un arall o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cydbwyllgorau neu o gyd is-bwyllgorau eich awdurdod; a
☒

(b) os oeddech chi, ar yr adeg pan wnaed y penderfyniad neu pan gymerwyd y cam, yn aelod o'r weithrediaeth, y bwrdd, y pwyllgor, yr is-bwyllgor, y cydbwyllgor neu'r cyd-is-bwyllgor a grybwyllir yn is-baragraff (a) a'ch bod chi'n bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu pan gymerwyd y cam hwnnw. ☒

Updated 23/03/20

## 3. GWYBODAETH I ATEGU'CH CAIS

Nodwch unrhyw wybodaeth ychwanegol (cefndir/ffeithiol) i gadarnhau/esbonio eich buddiant ymhellach. Bydd hyn yn cynorthwyo'r Pwyllgor wrth iddo drafod eich cais am ollyngiad.
**(Os na chwblheir y rhan hon, fe gaiff y ffurflen gais ei dychwelyd atoch)**
Tua 6/7 mlynedd yn ôl penderfynodd y Cyngor Sir dynnu eu cymorth refeniw yn ôl ar gyfer Pwll Nofio Llandysul ar y pryd, cyfleuster a adeiladwyd gan bobl Llandysul ryw 45 mlynedd yn ôl, ac sy'n bwll sy'n cael ei redeg yn wirfoddol gan Fwrdd Ymddiriedolwyr.
Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach penderfynodd yr un Awdurdod gau Canolfan Hamdden Llandysul a cheisiodd ddiddordeb gan y Gymuned i gymryd y cyfrifoldeb am barhau i'w weithredu.
Gan fod y Pwll wedi'i gysylltu â'r ganolfan Hamdden, penderfynodd y Bwrdd roi gwybod am eu diddordeb mewn cymryd drosodd y cyfleuster a chreodd y corff a elwir bellach yn Calon Tysul.
Derbyniodd yr Awdurdod Sir eu hachos busnes ac aeth ymlaen i drosglwyddo'r adeilad o dan y cynllun trosglwyddo asedau cymunedol gan ddod â swm refeniw cymedrol gydag ef am y 2 flynedd gychwynnol a ddilynodd.
Fel y gallai rhai ar y panel ei werthfawrogi a'i adnabod, mae angen cymorth refeniw bob amser ar Byllau a chyfleusterau hamdden, yn enwedig y rhai a reolir gan Awdurdodau Lleol, i gynnal eu gwasanaeth cymunedol pwysig iawn.
Er clod iddynt mae Calon Tysul wedi llwyddo hyd yma i gynnal yr adnodd cymunedol gwerthfawr hwn, ond maent yn ddibynnol ar ddenu cyllid rhaglenni a rhywfaint o gymorth refeniw cymedrol gan y cyngor cymuned ac maent yn dibynnu hefyd am gymorth ariannol allanol yn bennaf, i ymgymryd â phrosiectau sy'n waith cyfalaf eu natur. Fel mater o wybodaeth gefndirol rydym yn gwario dros £1k yr wythnos ar gostau ynni yn unig. Rwyf felly'n ceisio gollyngiad er mwyn fy ngalluogi fel eu cynrychiolydd etholedig lleol i bledio eu hachos ar lefel awdurdod sirol a chymunedol.

(defnyddiwch dudalen ychwanegol ar wahân os oes angen)

## 4. SAIL AR GYFER RHOI GOLLYNGIAD

Mae **Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Rhoi Gollyngiadau)(Cymru) 2001** yn pennu o dan ba amgylchiadau y gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau roi gollyngiad. Nodir isod y sail ar gyfer rhoi gollyngiad.

Ar ba sail o blith y canlynol y credwch y dylid rhoi gollyngiad yn yr achos hwn? Ticiwch bob bocs sy'n briodol.

| | |
|---|---|
| (a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw; | ☐ |
| (b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (d) neu baragraff (e) hefyd yn gymwys; | ☐ |
| (c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai anallu aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio; | ☐ |

Updated 23/03/20

| | |
|---|---|
| (d) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal; | ☒ |
| (e) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd; | ☒ |
| (f) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod; | ☒ |
| (g) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolwg a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol | ☐ |
| (h) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu | ☐ |
